# Cofnodion Cyfarfod 4/7/2024

**Presennol:** Eifion Roberts, Rhys Evans, Clare Mackintosh, Fiona Hopkins, Jacqueline Allen, Sion McGuinness, Eluned Jones, Eric Williams a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dilys Evans, Tony Parry, Moira Mai a Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Yn absenoldeb y Maer Dilys Evans fe gadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng Eifion Roberts.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiad o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 6/6/24.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Triathlon y Bala – cafwyd gwybodaeth fod y Triathlon yn debygol o fod ar benwythnos Mai 16-17 2025. Nodwyd fod angen sicrhau nad yw Sialens y Bala ar yr un penwythnos.
    ii. Sedd Wag y Cyngor: Oherwydd na chafwyd cais i alw etholiad, aethpwyd ymlaen i gyfethol aelod i lenwi'r sedd wag. Adroddwyd fod dau enw wedi dod i law, ac yn dilyn pleidlais gudd fe gytunwyd i gyfethol Huw Symonds.
    iii. Cynllun Creu Lle: Adroddwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal i ystyried yr adroddiad drafft, a bod disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi'n fuan.
    iv. Cynllun Celf Canol Trefi: Nodwyd fod yr artist Aliss Curtis o Lanberis wedi cychwyn ar y gwaith, ac wrthi'n ymgynghori gyda gwahanol grwpiau yn y dref.
    v. Materion Stryd Fawr – nodwyd fod cais wedi ei wneud ar gyfer cyfarfod gyda NMWTRA ac Adran Traffig Cyngor Gwynedd.
    vi. Cynllun Finyls Ffenestri Siopau Gweigion: Adroddwyd fod y prosiect hwn yn annhebygol o ddigwydd erbyn hyn oherwydd problemau ymarferol.
    vii. Ymddygiad gwrthgymdeithasol: Nodwyd fod yr awdurdod trwyddedu yn ymwybodol o'r materion yma, a nodwyd hefyd y byddai'n dda cael presenoldeb yr heddlu yn y dref pan fydd digwyddiadau mawr ymlaen.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng Dilwyn Morgan.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Clare Mackintosh pryd y dywedodd fod nifer fawr o ddigwyddiadau ar y gweill, hyn yn cynnwys arddangosfa o hanes y dref yng Nghanolfan Cantref a Chyngerdd Dathlu yn Theatr Derek Williams ar Orffennaf 13eg. Diolchwyd i'r holl fudiadau (Clwb Crefft, Clwb Rotari a'r Capel Clai) sydd wedi cymryd rhan yn y dathliadau. Adroddwyd y bydd noson BAFTA'r Bala yn y theatr fis Tachwedd, ac fe gytunwyd i anrhydeddu unigolion a sefydliadau sy'n cyfrannau at y dref, hyn i gynnwys categori Arwr Tawel yn ogystal â'r rhai y cytunwyd arnynt eisoes. Cytunwyd i hyrwyddo'r cyfleon yma drwy fudiadau'r dref, y Cyfnod a'r cyfryngau cymdeithasol.

7. **Is-bwyllgorau:**
   Is Bwyllgor Nadolig: Dywedodd y Cyng Rhys Evans ei fod wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i drafod addurniadau Nadolig.
   Is Bwyllgor Asedau: Adroddwyd na chafwyd cyfarfod yn ystod y mis diwethaf.
   Is Bwyllgor Tref Gyfeillgar: Adroddwyd fod hyfforddiant achrededig dementia ar y gweill.
   Is Bwyllgor Bioamrywiaeth: Adroddwyd fod cais wedi ei wneud i gael statws 'gwenyn garedig i'r dref.
   Is Bwyllgor Cyllid: Adroddwyd fod cyfrifon y cyngor wedi eu harchwilio a'u canfod yn gywir gan Gyngor Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol, a bod angen anfon popeth ymlaen i Archwilio Cymru fel Archwilwyr Allanol. Cymeradwywyd y wybodaeth a'r broses gan y cyngor.
   Is bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy: Adroddwyd fod bwriad i'r grŵp gyfarfod ddiwedd tymor yr haf.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:** Ni chafwyd adroddiadau.

8. **Materion Cynllunio**: Ystyriwyd y ceisiadau canlynol, ac fe gytunwyd i'w cymeradwyo.
   a) Canolfan Hamdden Penllyn – Gosod 6 pwmp gwres ffynhonell aer.
   b) Banc y Nat West – Newid defnydd y llawr gwaelod i siop adwerthu a storfeydd.
   c) Frondeg, 14 Heol Ffrydan - Caniatâd Adeilad Rhestredig (ôl-weithredol) i dynnu wal frics sengl presennol.

*9.* **Materion Cyllid:**
   **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £16,005.67 yn y cyfri cyfredol, £26,561.45 yn y cyfri cadw a £208.77 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod balans o £3,341.26 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd. Cytunwyd i drosglwyddo £400 o'r cyfrif cyfredol i gyfrif maer y cyngor.
   **ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, PAYE, anfoneb Gwilym Edwards am gynnal Tomen y Bala, anfoneb Y Bala – Yma o Hyd ynghyd â thaliadau Gwobr y Maer i Ysgol Godre'r Berwyn a chyfraniad y Maer i Amgueddfa Frongoch o Gronfa'r Maer.
   **iii.** Archwiliad Blynyddol: Adroddwyd y bydd y cyfrifon yn cael eu hanfon at Archwilio Cymru fel Archwilwyr Allanol y cyngor.

iv. Derbyniadau ariannol: Nodwyd derbyn grant o £500 gan y Parc Cenedlaethol tuag at gostau bocsys blodau i'r dref.

**10. Gohebiaeth:**

i. Dwr Cymru – derbyniwyd gwybodaeth am waith i wella'r rhwydwaith dŵr gwastraff ar Heol Tegid.
ii. Un Llais Cymru – derbyniwyd cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar Flaenoriaethu Diwylliant, gwybodaeth am Ymgysylltiad Ieuenctid a'r Cynllun Hyfforddiant.
iii. Cyngor Gwynedd – derbyniwyd rhybudd o gau Heol Tegid ar gyfer gwaith hanfodol.
iv. Clwb Rotari – derbyniwyd llythyr yn gwneud cais i osod meinciau ar Domen y Bala. Cytunwyd i ganiatáu'r cais, ond i ofyn iddynt beidio gosod plac ar y meinciau. Nodwyd y bydd angen ymgynghori hefo CADW a'r Parc Cenedlaethol gan fod y domen yn heneb gofrestredig.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

i) Adroddwyd fod hela cwningod wedi bod ar ochr y llyn a llwybr yr afon, a bod hyn o bosibl yn fater i'r RSPCA ei ystyried.
ii) Adroddwyd hefyd fod Openreach wedi bod yn gosod polion a gwifrau ger Trem y Ffridd heb unrhyw ymgynghori lleol, a bod angen sicrhau fod ymgynghori yn digwydd yn y dyfodol cyn cychwyn ar waith fel hyn.
iii) Tomen y Bala – cafwyd trafodaeth ar y gwrych ar gopa'r domen, ac fe gytunwyd i holi a oes modd creu bylchau yn y gwrych fel bo modd cael golygfeydd o'r dref.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 12 Medi 2024.